# Defnyddio technoleg monitro ac eithrio dal i bennu nodweddion poblogaeth pysgod

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â defnyddio technoleg monitro ac eithrio dal i bennu nodweddion poblogaeth pysgod. Bydd yn cynnwys defnyddio technoleg monitro electronig i bennu nodweddion poblogaeth pysgod. Mae hefyd yn cynnwys paratoi’r cyfarpar monitro ar gyfer ei ddefnyddio, gosod yr ardal bysgota, lleoli’r cyfarpar monitro a defnyddio’r cyfarpar yn ddiogel i gasglu data mewn dŵr rhedegog a dŵr llonydd.

Hefyd, mae’n gofyn bod y gweithgarwch pysgota’n cael ei addasu pan fo’r angen er mwyn caniatáu am newidiadau yn amodau’r dŵr ac yn yr amgylchedd.

Mae’r safon hon yn gofyn eich bod yn gwneud gwaith yn ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion iechyd a diogelwch perthnasol, a’ch bod yn gweithio i gynnal bioddiogelwch a lleihau tarfu amgylcheddol bob amser.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy’n rheoli cymhwyso’r safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad y bysgodfa – yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyflawni'r holl weithgareddau sy'n ofynnol i ddefnyddio technoleg monitro ac eithrio dal yn ddiogel, yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. dewis a defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol
3. cael y fanyleb ofynnol ar gyfer arolwg pysgodfa i bennu nodweddion poblogaeth pysgod
4. asesu'r amodau sydd ohoni i bennu a yw'n ddiogel defnyddio'r technegau monitro ac eithrio dal a ddewiswyd
5. paratoi a chynnal a chadw technoleg monitro ac eithrio dal yn unol â'r safon ofynnol ar gyfer y bysgodfa
6. gosod technoleg monitro ac eithrio dal yn yr ardal bysgota yn unol â gofynion arolwg y boblogaeth pysgod
7. rheoli technoleg monitro ac eithrio dal i fodloni gofynion arolwg y boblogaeth pysgod
8. addasu gweithgareddau monitro ac eithrio dal i ymateb i newidiadau mewn amodau dŵr ac amgylcheddol, er mwyn cynnal eu heffeithiolrwydd
9. cofnodi data'r boblogaeth pysgod o'r dechnoleg monitro ac eithrio dal yn unol â manyleb ofynnol yr arolwg pysgodfa
10. arsylwi perfformiad y gweithgarwch monitro ac eithrio dal gan sicrhau cydymffurfedd â manyleb ofynnol yr arolwg pysgodfa
11. cynnal cyfathrebu effeithiol gyda phawb sy'n ymwneud â'r gweithgarwch monitro ac eithrio dal
12. rhoi gwybod i'r person priodol am unrhyw broblemau gyda'r gweithgarwch monitro ac eithrio dal
13. diheintio a, lle bo hynny'n briodol, storio technoleg monitro ac eithrio dal a chyfarpar perthnasol eraill ar ôl eu defnyddio, yn unol â gofynion
14. cynnal lefelau addas o fioddiogelwch wrth ddefnyddio technoleg monitro ac eithrio dal i bennu nodweddion poblogaeth pysgod

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gofynion iechyd a diogelwch perthnasol sy’n gysylltiedig â gweithgareddau monitro ac eithrio dal
2. y technegau a’r dechnoleg monitro ac eithrio dal a ddefnyddir i fonitro nodweddion poblogaeth pysgod
3. manteision ac anfanteision technegau a thechnoleg monitro ac eithrio dal a ddefnyddir i fonitro nodweddion poblogaeth pysgod
4. defnydd data ac eithrio dal wrth reoli pysgodfeydd
5. yr amodau amgylcheddol sy’n ofynnol ar gyfer lleoli technoleg monitro ac eithrio dal, ynghyd ag effaith bosibl amodau amgylcheddol andwyol
6. sut i baratoi a chynnal technoleg monitro ac eithrio dal priodol mewn cyflwr gweithredu diogel
7. sut gall amodau’r dŵr effeithio ar ansawdd y data a gesglir ar y boblogaeth pysgod (h.y. gwelededd, llif y dŵr, dyfnder)
8. adwaith disgwyliedig rhywogaethau pysgod gwahanol i dechnoleg monitro ac eithrio dal
9. pwysigrwydd bioddiogelwch yn ystod gweithgareddau monitro ac eithrio dal

## Geirfa

**Mae cyfarpar monitro ac eithrio dal yn cynnwys:**

1. cyfarpar acwstig
2. cyfarpar fideo/adnabod symudiadau
3. camerâu acwstig
4. cyfarpar gwrthiant trydanol.

LANFiM11

Defnyddio technoleg monitro ac eithrio dal i bennu nodweddion poblogaeth pysgod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFiM29 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Arolygydd, Tywysydd Pysgota, Beili/Warden, Prif Feili, Rheolwr Pysgodfa, Uwch Reolwr Pysgodfa, Swyddog Datblygu Pysgodfeydd |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Pysgodfeydd |
| **Geiriau Allweddol** | Monitro; pysgod; poblogaethau; electronig; cyfarpar |